# Arfarniad Llesiant Integredig

**Mae angen Arfarniad Llesiant Integredig fel rhan o Ganllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru. Mae ein Hasesiad Llesiant Integredig ar gyfer Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft Gogledd Cymru yn dangos sut y bydd ein polisïau yn cyfrannu at lesiant. Mae hyn yn cynnwys ystyried effeithiau sy'n gysylltiedig â materion fel yr amgylchedd, iechyd, cydraddoldeb, diwylliant a'r Gymraeg, hawliau plant a bioamrywiaeth.**

Nid ymarfer 'ticio bocs' yn unig yw Arfarniad Llesiant Integredig. Yn ogystal â chyflawni'r ddyletswydd statudol ar gyfer ystod o asesiadau effaith, rhaid defnyddio deilliannau'r asesiad i ddangos sut yr eir i'r afael â llesiant; cynnwys buddion yn y dyluniad ac eithrio unrhyw effeithiau niweidiol posibl o'r dyluniad. Mae Arfarniad Llesiant Integredig yn mynd i'r afael â phedwar cwestiwn allweddol yn seiliedig ar y pedwar uchelgais yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru:

**Sut fydd y rhaglen neu'r prosiect o fudd i bobl a chymunedau?** (cydraddoldeb, iechyd, diogelwch a hyder)

**Sut y bydd o fudd i'r amgylchedd?** (lleihau allyriadau carbon, buddiol i fioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau a lleihau gwastraff)

**Sut y bydd o fudd i leoedd a'r economi?** (creu lleoedd, arloesi, cludo)

**Sut y bydd o fudd i ddiwylliant a'r Gymraeg?** (y celfyddydau a chwaraeon a'r amgylchedd hanesyddol)

Wrth helpu i ateb y cwestiynau hyn, mae'r Arfarniad Llesiant Integredig yn cyfuno gofynion sawl asesiad effaith, gan gynnwys rhai sy'n statudol, fel Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Effaith Cydraddoldeb, ymhlith eraill. Mae hefyd yn cynnwys asesiadau anstatudol fel Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, ac eraill sy'n ystyried ardaloedd gwledig a newid hinsawdd.

**Mae'r prif ganfyddiadau yn cynnwys:**

**Effeithiau cadarnhaol**

Gwell mynediad at wasanaethau, llai o unigedd cymdeithasol, gwell iechyd corfforol a meddyliol, a chefnogaeth ar gyfer twf economaidd.

**Effeithiau negyddol**

Effeithiau niweidiol posibl ar fioamrywiaeth, sŵn, llygredd aer ac ansawdd dŵr o ddatblygiad isadeiledd.

Gwnaed argymhellion i helpu i osgoi neu liniaru effeithiau negyddol, megis ymgorffori mesurau diogelu bioamrywiaeth, sicrhau hygyrchedd mewn dylunio trafnidiaeth, a hyrwyddo'r defnydd o gerbydau dim allyriadau. Yn gyffredinol, rydym o'r farn bod gan y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol y potensial i wella llesiant trigolion Gogledd Cymru trwy hyrwyddo datrysiadau trafnidiaeth cynaliadwy ac integredig sy'n diwallu anghenion y cymunedau y maent yn anelu at eu gwasanaethu.

